

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Amddifyn Plant



AMCAN CYFFREDINOL

Y nodweddion pennaf o safbwynt Amddiffyn Plant yw hyrwyddo lles a diogelwch pob plentyn. Gellir cyfeirio at strategaethau i gefnogi'r plentyn mewn modd sy'n meithrin ymdeimlad o ddiogelwch, hyder ac annibyniaeth trwy waith ataliol cwricwlaidd. Y nod fyddai galluogi pob plentyn i ddatblygu'n emosiynol, addysgol a chymdeithasol a thrwy hynny gyfrannu'n effeithiol i'r gymuned a bywyd pob dydd.

NODAU Y POLISI

- I hybu'r plentyn/person ifanc i fod yn aelod cyflawn o gymdeithas
- I ddatblygu hunanddelwedd bositif ym mhob plentyn/person ifanc
- I gynorthwyo plant/pobl ifanc i ddatblygu ymwybyddiaeth o'u hawliau
- I sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r prif elfennau sy'n berthnasol i faes Amddiffyn Plant yn ogystal â datblygiadau diweddar a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau h.y. datblygu awyrgylch a strategaethau ataliol, bod yn ymwybodol o arwyddion o gamdriniaeth a'r modd o weithredu mewn amgylchiadau o'r fath
- I sicrhau trefn gyfathrebu effeithiol yn fewnol yn yr ysgol fel bod holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r camau i'w dilyn mewn sefyllfaoedd lle bo consyrn am les unrhyw blentyn
- Sicrhau trefn effeithiol o gyfathrebu rhyngasiantaethol
- Atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc

NODAU ADDYSGOL/CWRICWLAIDD

Gellir gwau cysyniadau Amddiffyn Plant i amryw o agweddau'r cwricwlwm trwy waith thematig yn ogystal â gwaith mwy pynciol ei natur

Y prif gysyniadau y dylid eu hybu yw'r canlynol:-

- Dealltwriaeth plant a phobl ifanc o berthynas
- Datblygu hunanwerth ac ymwybyddiaeth
- Ymwybyddiaeth o hawliau sylfaenol yr unigolyn
- Y gallu i fynegi barn a datrys problemau
- Y gallu i fod yn gadarn

Mae pob plentyn yn haeddu'r cyfle i gyrraedd ei botensial llawn, felly dylid sicrhau cyfleoedd i alluogi pob disgybl i gyflawni'r canlynol:-

- Bod mor iach ag y mae modd yn gorfforol ac yn feddyliol
- Cael y budd pennaf o gyfleoedd addysgol o ansawdd da
- Teimlo'u bod yn cael eu caru a'u gwerthfawrogi, a'u cynnal gan rwydwaith dibynadwy a chariadus o fewn yr ysgol
- Dod yn gymwys i edrych ar eu hól eu hunain a delio gyda byw bob dydd
- Bod â delwedd gadarnhaol ohonynt eu hunain ac ymdeimlad diogel o hunaniaeth, gan gynnwys hunaniaeth, diwylliant a hil
- Datblygu sgiliau rhyngbersonol da a hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol

DIFFINIADAU O GAM-DRIN AC ESGEULUSO PLANT

Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed iddo, neu drwy fethu gweithredu i atal niwed.

Gall plentyn neu berson ifanc hyd at 18oed ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod a bod angen eu hamddiffyn drwy Cynllun Amddiffyn Plant Rhyngasiantaethol Gwynedd

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Amddifyn Plant



1. **Cam-drin corfforol** - taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu achosi niwed corfforol mewn unrhyw ffordd arall i blentyn. (Gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi pan fydd rhiant neu ofalydd yn ffugio symptomau iechyd.)
2. **Cam-drin emosiynol** - trin plentyn yn wael yn barhaus sy'n achosi effeithiau drwg difrifol a pharhaus i ddatblygiad emosiynol plentyn
3. **Cam-drin rhywiol** – gorfodi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithrediad rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio
4. **Esgeulustod** – methiant parhaus i gyfarfod ag anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn

Dulliau gweithredu

Bydd corff llywodraethol yn sicrhau drwy'r Cydlynnydd Amddiffyn Plant/Pennaeth fod Protocol prosesau mewnol yr ysgol yn cael ei gweithredu'n llawn yn unol â'r canllawiau ar gyfer athrawon a staff ategol yr ysgol (gweer Atodiad 1)

ADOLYGU A MONITRO'R POLISI

Dylid adolygu'r polisi yn achlysurol (h.y. pob rhyw 3 blynedd os na fydd newid yn y ddeddf yn gorfodi newid!) Defnyddir y fforymau a ganlyn i wneud hyn:-

- Cyfarfodydd a chofnodion cyfarfodydd y tîm bugeiliol
- Cyfarfodydd a chofnodion Llywodraethwyr yr ysgol
- Trefniadau HMS
- Targedau yng Nghynllun Datblygu'r ysgol
- Cyswllt rhwng yr ysgol ag asiantaethau cynhaliol, e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ymateb i ddatblygiadau diweddar yn y maes

Monitro

Dyletswydd yr Awdurdod Addysg yw monitro bod cyrff llywodraethol ysgolion yn meddu ar bolisiau sydd yn codi ymwybyddiaeth a sicrhau hyfforddiant i staff am faterion perthnasol i faes amddiffyn plant

CYFATHREBU MEWNOL

Mewn sefyllfa lle yr amheuir unrhyw fath o gamdriniaeth neu lle bo plentyn yn datgelu gwybodaeth o'r fath dylid dilyn y drefn isod:

1. **COFNODI** manylion (brasluniau lle bo'n berthnasol), dyddiadau, amser, lleoliad, a.y.y.b. dylid defnyddio union eiriau'r plentyn neu eraill a ysgogodd yr angen i weithredu. Mae cofnodion o'r fath yn gyfrinachol ac fe'u cedwir yn ffeil y disgybl. Gall fod angen defnyddio'r cofnodion mewn achos Llys maes o law.
2. **CYFEIRIO MEWNOL** i sylw Mrs Ellen Williams neu yn ei habsenoldeb i'r Pennaeth
3. **GWEITHREDU GAN YR ATHRAWES DDYNODEDIG (EAW)**
 - Hysbysu Swyddog Rhanbarthol y Gwasanaethau Cymdeithasol – 01286 673113 – ar unwaith dros y ffôn
Enw, cyfeiriad dyddiad geni'r plentyn
Enw, cyfeiriad rhiant/gwarcheidwad
 - Tu allan i oriau swyddfa dylid cysylltu â thîm dyletswydd Argyfwng y Gwasanaethau Cymdeithasol.

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Amddifyn Plant



Lle bo ansicrwydd gall yr Athrawes Dynodedig geisio cyngor gan:-

Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol
NSPCC
Cyd-gysylltydd Amddiffyn Plant yr AALI
Gwasanaeth Lles Addysg

- Ymhen 24 awr o gyfeirio'r achos, yr athro/athrawes ddynodedig i gysylltu â Swyddog Rhanbarth y Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau gweithrediad. Dylid cofnodi hyn.
- Yr athro/athrawes dynodedig i gadarnhau'r cyfeiriad yn ysgrifenedig i Swyddog Rhanbarth y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn hysbysu'r Pennaeth yn ysgrifenedig o ganlyniad yr achos
- Cynnal cyfarfodydd cyson yn yr ysgol gyda'r staff bugeiliol a rhannu'r wybodaeth perthnasol i staff eraill sy'n debygol o fod yn ymwneud â disgyblion lle bo consyrn ynglŷn â'u lles
- Dylai'r athro/athrawes dynodedig roi gwybodaeth cyson i'r pennaeth am unrhyw achos lle y ceir amheuan neu unrhyw dystiolaeth o gamdriniaeth
- Mae gan staff gyfrifoldeb proffesiynol i ddatgelu a rhannu gwybodaeth personol am Amddiffyn Plant gyda gweithwyr proffesiynol eraill y mae angen iddynt wybod amdano. Mae'r gwybodaeth am bob achos yn gyfrinachol ac fe dylai cofnodion Amddiffyn Plant gael eu cadw yn ddiogel o dan glo, h.y. yn ffeil y disgybl

ADOLYGU A MONITRO'R POLISI

Dylid adolygu'r polisi yn achlysurol (h.y. pob rhyw 3 blynedd os na fydd newid yn y ddeddf yn gorfodi newid!) Defnyddir y fforymau a ganlyn i wneud hyn:-

- Cyfarfodydd a chofnodion cyfarfodydd y tîm bugeiliol
- Cyfarfodydd a chofnodion Llywodraethwyr yr ysgol
- Trefniadau HMS
- Targedau yng Nghynllun Datblygu'r ysgol
- Cyswllt rhwng yr ysgol ag asiantaethau cynhaliol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol
- Ymateb i ddatblygiadau diweddar yn y maes

MONITRO

Dyletswydd yr Awdurdod Addysg yw monitro bod cyrff llywodraethol ysgolion yn meddu ar bolisiau sydd yn codi ymwybyddiaeth a sicrhau hyfforddiant i staff am faterion perthnasol i faes amddiffyn plant

Person Cyswllt Amddiffyn Plant yr Awdurdod yw Ffion Rhisiart
Cyswllt: FfionERhisiart@gwynedd.gov.uk Ffon: 01286 679056

HYFFORDDIANT

Bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau fod aelodau o staff yr ysgol yn cael mynediad rheolaidd i hyfforddiant yn y maes Amddiffyn Plant

PERSONAU CYFRIFOL AMDDIFFYN PLANT

Aelod o'r Llywodraethwyr
Enw: Len Brookes

Cyd-gysylltydd Amddiffyn Plant
Mrs Ellen A Williams, Dirprwy Bennaeth
(Y Pennaeth yn absenoldeb Mrs E A Williams)



POLISI GORCHWYLIO AMDDIFFYN PLANT

CYFLWYNIAD

Yn unol â Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 cymal 2.4.1 dylai pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant gael ei oruchwyllo'n briodol. Mae'r polisi hwn yn sefydlu trefn oruchwyllo ffurfiol ar gyfer Ysgolion Gwynedd

Prif nod y polisi yw gosod canllawiau traws awdurdod o oruchwyllo staff i ofalu bod arferion yn gadarn ac yn gyson â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

PWRPAS GORUCHWYLIAETH

- 1.1 Gan eu bod nhw'n dod i gyswllt â phlant o ddydd i ddydd, mae athrawon a staff eraill ysgolion mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol sy'n awgrymu bod plentyn mewn perygl o ddiodef niwed arwyddocaol. Oherwydd yr un rhesymau mae athrawon a staff hefyd mewn risg o fod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant. Bydd goruchwyliaeth strwythedig yn sicrhau fod pob aelod o staff yn ymwybodol o ganllawiau Amddiffyn Plant a sut y gallant effeithio arnynt yn ei gyrfa broffesiynol
- 1.2 Dylai'r oruchwyliaeth gael ei gynnal o leiaf i waith y flwyddyn ar lefel un i un
- 1.3 Prif swyddogaethau'r broses oruchwyllo yw;
 - a. Sicrhau fod pob aelod o staff sydd yn gweithio gyda phlant yn ymwybodol o brosesau amddiffyn plant
 - b. Adolygu canllawiau amddiffyn plant gyda phob aelod o staff yn flynyddol
 - c. Sicrhau fod cofnod ysgrifenedig i dystio fod pob aelod o staff sydd yn gweithio gyda phlant yn ymwybodol o brosesau amddiffyn plant

Rolau

Mae disgwyl i bob Pennaeth ddarparu goruchwyliaeth yw staff drwy sefydlu strwythur goruchwyllo

- 2.1 Rôl y Goruchwylwr
 - a. Paratoi ar gyfer goruchwyllo
 - b. Sicrhau fod cofnod ysgrifenedig mewn perthynas â'r goruchwylled yn cael ei diweddarau a'i ffeilio yn drefnus a diogel
 - c. Cwblhau Cofrestr Goruchwyliaeth ar y cyd ar goruchwyiedig
- 2.2 Rôl y Goruchwyiedig
 - a. Hysbysu'r goruchwylwr o unrhyw bryderon
 - b. Paratoi a chyfranogi mewn goruchwyllo

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:

(Mr Dafydd M Roberts)

Dyddiad cymeradwyo: 21/01/2016 (gan y corff llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: Hydref 2019

